

16/12/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn dilyn llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg heddiw, hoffwn rannu gwybodaeth bellach gyda chi am drefniadau dychwelyd i'r Ysgol ym mis Ionawr. Mae manylion pellach ar gael yn y [llythyr yma](#) gan Gyfarwyddwr Addysg Abertawe.

Yn sgil yr ansicrwydd am effaith yr amrywiolyn newydd - Omicron, **ni fydd disgyblion yn mynychu'r ysgol ar ddau ddiwrnod cyntaf y tymor gan fydd dydd Mawrth y 4ydd a Mercher y 5ed o Ionawr yn 'ddiwrnodau paratoi'** bellach, fel y gall ysgolion baratoi ar gyfer:

- asesu capasiti staffio;
- paratoi ar gyfer dychwelyd ar 'lefel risg uchel';
- gosod mesurau angenrheidiol yn eu lle i gefnogi dychweliad dysgwyr;
- paratoi ar gyfer symud tuag at ddysgu o bell, **os bydd angen gwneud** gyda grwpiau penodol o ddisgyblion e.e. blynyddoedd gwahanol oherwydd y newid i lefel risg uchel;
- blaenoriaethu darpariaeth i flynyddoedd arholiad i barhau gyda dysgu wyneb i wyneb;
- gosod cynlluniau yn eu lle fel y gall rhai o'n dysgwyr barhau i eistedd eu harholiadau ym mis Ionawr yn ddiogel (gweler y [ddolen yma](#) ar gyfer pecyn cefnogaeth bellach i ddysgwyr;
- paratoi ar gyfer darpariaeth i ddisgyblion bregus a disgyblion sy'n blant i weithwyr allweddol;

Newidiadau Lefel Risg Uchel

Braf yw nodi ein bod wedi bod yn parhau i weithredu nifer o fesurau lleihau lledaenu'r firws ers dechrau'r tymor. Ond yn sgil y newid yma, golygir y bydd disgwyl i ni weithredu'r canlynol yn unol â'r Fframwaith Penderfyniadau Lleol ac asesiad risg yr ysgol:

- mygydau yn cael gwisgo mewn ardaloedd poblog ac mewn gwersi;
- ail gydio mewn gwahanu grwpiau cyswllt o ddisgyblion – fesul blwyddyn ym Mryn Tawe;
- addasu amseroedd gadael ar ddiwedd y dydd. Byddwn yn cadw ein trefniadau cyrraedd er mwyn gwahanu disgyblion wrth gyrraedd yr adeilad.
- oedi clybiau a gemau tîm.

Profion Llif Unffurf

Disgwylir i ddisgyblion a staff yr ysgol i gymryd 3 prawf LFT yn wythnosol (ar ddydd Llun, Mercher a Gwener) er mwyn gallu adnabod unrhyw achosion asymptomatig wedi dychwelyd, yn ogystal â chyn dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



Disgwylir y bydd disgyblion yn gallu dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Iau'r 6ed o Ionawr. Os bydd unrhyw newid i'r trefniadau uchod dros yr ŵyl, byddaf yn eich hysbysu cyn gynted. Gweler y [cwestiynau cyffredin yma ar weithrediad ysgolion](#) gan LIC am wybodaeth bellach.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus i ni yn yr ysgol ac am y negeseuon o gefnogaeth – maent yn mynd yn bell! Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Iachus a Llwyddiannus i chwi oll.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

